Gwasanaeth Gwirfoddol
BIP Caerdydd a'r Fro

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | Cardiff and Vale University Health Board

# GWIRFODDOLWR YMGYSYLLTIAD AWYR AGORED A CHYFEILLIO

Ward Sam Davies

**Lleoliad**
*Ward Sam Davies, Ysbyty'r Barri*

**Yn adrodd i**
*Rheolwr y Ward*

**Yn atebol i**
*Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol*

**Time Commitment**
*O leiaf 2 awr yr wythnos, am o leiaf 6 mis, dyddiau i'w cadarnhau*

**Gwiriadau Gofynnol**
*DBS (Gwiriad Cofnodion Troseddol) Gwiriad Iechyd Galwedigaethol Dau Eirda*

**Treuliau**
*Caiff treuliau teithio i/o leoliadau ar ddiwrnod gwirfoddoli eu had-dalu*

## GOFYNION PERSONOL

- Meddu ar sgiliau gwrando rhagorol a bod yn anfeirniadol.
- Bod yn hyderus wrth gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr, staff ac aelodau o'r cyhoedd.
- Bod yn frwdfrydig am nodau a gwaith Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Dangos lefelau o empathi a dealltwriaeth bob amser.
- Edrych yn drwsiadus, yn smart a gwisgo gwisg a bathodyn adnabod Gwirfoddolwr Bwrdd Iechyd y Brifysgol bob amser.
- Cydnabod pryd i atgyfeirio materion a chwestiynau at staff Bwrdd Iechyd y Brifysgol.

## NOD Y RÔL

Mae'r ward yn ward feddygol gymysg sy'n cynnwys adsefydlu, ar gyfer cleifion dros 65 oed. Er mwyn cefnogi iechyd a lles cleifion, mae'r ward yn datblygu ac yn defnyddio ardal gaeedig y tu allan (sy'n hygyrch i gleifion eraill, ymwelwyr a staff), ac Ystafell Weithgareddau'r ward ar gyfer gweithgareddau natur ac ymlacio. Bydd gwirfoddolwyr yn cefnogi ac yn rhyngweithio â chleifion yn yr ardal gaeedig y tu allan a'r Ystafell Weithgareddau; yn annog cleifion i fwynhau ac ymgysylltu â'r gofod awyr agored, gan gefnogi cleifion a allai deimlo'n unig, wedi'u hynysu neu wedi diflasu. I gefnogi cleifion, bydd Gwirfoddolwyr yn defnyddio eu diddordeb/gwybodaeth eu hunain am natur a lles, a bydd angen dealltwriaeth dda neu ddiddordeb ym manteision byd natur wrth gefnogi iechyd a lles/garddwriaeth/garddio. Bydd gwirfoddolwyr hefyd yn cefnogi cleifion a staff gyda gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar a natur yn yr ardaloedd caeedig y tu allan, ac ar y ward.

## PRIF DASGAU

- Cyfeillio, treulio amser a darparu cwmni i gleifion yn yr ardaloedd caeedig y tu allan a'r ward.
- Cefnogi staff i hwyluso gweithgareddau fel gweithgareddau ymlacio a synhwyraidd.
- Rhoi cefnogaeth yn yr ardaloedd caeedig y tu allan i ofalu am blanhigion, helpu i ddarparu lluniaeth, paratoi seddi a mannau ymgysylltu.
- Trin pob defnyddiwr gwasanaeth ag urddas a pharch
- Dilyn polisi a gweithdrefn diogelu
- Rhoi gwybod i staff os bydd defnyddiwr gwasanaeth yn mynd yn sâl
- Cefnogi defnyddwyr gwasanaeth ac ymwelwyr i gymryd rhan mewn sesiynau drwy ddarparu sicrwydd ac arweiniad
- Rhoi adborth i staff

***Mae'r rôl hon yn gofyn am ymrwymiad rheolaidd i wirfoddoli bob wythnos i ddod yn gyfarwydd â'r cleifion***

***Bydd gwirfoddolwyr yn cael eu trin yn gynhwysol gan y Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol a'r Tîm Gweithgareddau a byddant yn cael cynnig goruchwyliaeth ac arweiniad parhaus.***

## FFINIAU PWYSIG

Nid yw'r rôl hon yn cynnwys ymyrraeth feddygol, eiriolaeth na chwnsela. Nid yw'r rôl hon yn cynnwys cysgodi staff clinigol. Ni fydd gwirfoddolwyr yn cyflawni unrhyw dasgau clinigol na rhyngweithiadau clinigol.

## HYFFORDDIANT A CHYMORTH

Hyfforddiant a chymorth

Bydd angen i wirfoddolwyr ymgymryd â chynllun Hyfforddi a Sefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal â lefel briodol o hyfforddiant codi a chario a thrais ac ymddygiad ymosodol. Caiff anghenion hyfforddi eu nodi drwy'r broses oruchwylio a'u diwallu drwy Raglenni Hyfforddi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

## MANTEISION I'R GWIRFODDOLWR

- Mae'r rôl hon yn cynnig:
- Profiad o weithio mewn tîm.
- Boddhad o gynorthwyo eraill a darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r
- Bwrdd Iechyd a'r gymuned.
- Cyfle i ddatblygu sgiliau a phrofiad personol.
- Cyfle i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ymhellach.
- Cyfle i ddatblygu gwybodaeth am anawsterau cyfathrebu.
- Geirda ar gais (ar gael ar ôl i chi wirfoddoli am chwe mis yn unig).

## PERSON SPECIFICATION

| Meini prawf | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Deall pwysigrwydd cyfrinachedd a dilyn gweithdrefnau | x | |
| Profiad o weithio mewn lleoliad gofal iechyd | | x |
| Sgiliau cyfathrebu da | x | |
| Dealltwriaeth o, neu ddiddordeb mewn, gerddi/mannau rhandir a'r defnydd ohonynt ym maes iechyd meddwl | x | |
| Gallu siarad Cymraeg | | x |
| Gallu gweithio'n annibynnol neu fel rhan o dîm | x | |
| Dibynadwy a phrydlon | x | |
| Ar gael i wirfoddoli am yr amser sydd ei angen | x | |
| Tawel, Brwdfrydig a llawn cymhelliant | x | |
| Profiad o wirfoddoli | | x |
| Profiad o fod yn gyfaill | | x |
| Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant | x | |